


Bannau Brycheiniog

# Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig: Llangynidr





**Awst 2025**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bannau Brycheiniog

## Beth yw'r Rhestr Leol?

Mae Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, neu 'Restr Leol', yn rhestr o'r holl asedau treftadaeth nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw restrau neu gofrestrau cenedlaethol, ond sy'n bwysig i gymunedau lleol ac i'r lleoedd rydyn ni'n byw ynddynt.  Gallai'r rhain fod yn adeiladau, safleoedd archeolegol, henebion, safleoedd lle gallai digwyddiadau hanesyddol lleol arwyddocaol fod wedi digwydd, mannau agored neu nodweddion eraill, fel standiau corddi llaeth, cerrig milltir neu flychau post hanesyddol. Mae treftadaeth leol yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein bywydau o ddydd i ddydd, gan gyfrannu at ein hansawdd bywyd, ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o le a chymuned.  Mae'r Rhestr Leol yn helpu i ddathlu treftadaeth leol, gan dynnu sylw at ei phwysigrwydd a sicrhau ei bod yn cael ei gwerthfawrogi.  Mae'n caniatáu i gymunedau lleol nodi'n ffurfiol yr asedau treftadaeth sy'n arwyddocaol iddyn nhw, y maen nhw'n eu gwerthfawrogi ac eisiau eu diogelu a'u gwarchod. Pwrpas cadw rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yw sicrhau bod arwyddocâd asedau lleol yn cael ei ystyried pan fydd newid yn cael ei ystyried, fel y disgrifir yn *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* (2017) Cadw.

## Meini Prawf Rhestr Leol

**1. Diddordeb Hanesyddol**
a) A yw'n ymwneud ag agwedd bwysig ar hanes cymdeithasol, crefyddol, gwleidyddol neu economaidd lleol?
b) A yw'n hanesyddol gysylltiedig â nodwedd leol bwysig?

**2. Cysylltiad Hanesyddol**
a) A oes cysylltiad agos â: phobl leol enwog, digwyddiadau hanes lleol, datblygiadau cymunedol neu gymdeithasol cryf (rhaid iddynt fod wedi'u dogfennu'n dda)?
b) A oes cysylltiad agos ag unrhyw strwythur neu safle gwarchodedig statudol?

**3. Teilyngdod Pensaernïol a Dylunio**
a) A yw'r adeilad/strwythur/parc neu ardd sydd wedi goroesi yn waith gan bensaer neu ddylunydd penodol sy'n darlunio hanes neu ddyluniad lleol neu ranbarthol?
b) A yw'n dangos rhinweddau oedran, arddull neu nodweddion nodweddiadol mewn perthynas â'r ardal?
c) A yw'r dyluniad pensaernïol, y manylion a'r deunyddiau adeiladu yn ychwanegu at gymeriad lleol yr ardal?

**4. Goroesiad**
a) A yw'n dal i fod mewn ffurf gadarn ac adnabyddadwy?
b) A yw wedi cadw ei nodweddion a'i gynlluniau hanesyddol?
c) A yw'n cynrychioli elfen bwysig yn natblygiad yr ardal?

**5. Teilyngdod Treflun**
a) A yw'n cynrychioli amwynder gweledol pwysig yn lleol? Er enghraifft, a yw'n creu effaith weledol ddiddorol mewn ardal neu'n cyfrannu at dirnod?

b) A yw'n adeilad nodedig ar lwybr pwysig i mewn i'r ardal sy'n creu golygfa neu'n cyfrannu at y nenlinell? A yw'n pwysleisio safleoedd cornel neu'n darparu canolbwyntiau yn y dreflun?

**6. Bioamrywiaeth**
a) Adeiladau sy'n darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth.

## Beth yw effaith rhestru lleol?

Er nad oes unrhyw reolaethau statudol ychwanegol dros eiddo sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Leol, bydd yr Awdurdod yn annog perchnogion i warchod y nodweddion arbennig sydd wedi arwain at eu cynnwys. O dan y Cynllun Datblygu Lleol presennol, mae diogelu adeiladau a nodwyd ar y Rhestr Leol yn cael ei gwmpasu gan **Bolisi 18: Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol:**

*Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol fel y'u nodir ar y rhestr leol lle na fyddai eu hymddangosiad unigryw, eu cyfanrwydd pensaernïol neu eu lleoliadau yn cael eu heffeithio'n sylweddol o andwyol.*

## Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r gymuned leol yn Neuadd Bentref Llangynidr ar 1 Mai 2025, a derbyniwyd sylwadau am gyfnod o chwe wythnos ar ôl y sesiwn. Yr asedau eraill a gynigiwyd gan y gymuned a allai fod yn addas i'w cynnwys ar y Rhestr Leol yn dilyn ymgynghoriad yn y dyfodol oedd:

- Eglwys Sant Cynidr a'r Santes Fair (315542,219406): a nodwyd ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a'r map degwm a'r ddogfen dosrannu dyddiedig 1840
- Y Llew Coch (315560,219451): a nodwyd ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a'r map degwm a'r ddogfen dosrannu dyddiedig 1840
- 'Tollborth' ger y Llew Coch: nodwyd strwythur o faint tebyg ar fap degwm dyddiedig 1840.







Gwnaed sylwadau hefyd ynglŷn â diogelu'r waliau ffin cerrig, y camfeydd cerrig a'r llwybrau gwyrdd sy'n ychwanegu llawer at gymeriad yr ardal, ac y gellid eu hamlygu mewn unrhyw ddynodiad Ardal Gadwraeth yn y dyfodol.

# Map o Asedau Treftadaeth sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Leol yn Llangynidr




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000821863. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000821863. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

# Bannau Brycheiniog

## Rhestr Leol Gymeradwy

| Lôn Olchi 1: Mynwent Llangynidr | |
|---|---|
| **Cyfeirnod: 001** | **Cyfesurynnau: 315330,219162** |





**Meini Prawf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hanesyddol | X | Diddordeb Hanesyddol | X |
| | | Cysylltiad Hanesyddol | |
| Pensaernïol | X | Hanes/dyluniad pensaernïol lleol/rhanbarthol | |
| | | Oedran/Arddull/Nodweddion unigryw | |
| | | Ychwanegu at y cymeriad lleol | X |
| Goroesiad | X | Cyfanrwydd | |
| | | Elfen bwysig yn natblygiad yr ardal | X |
| Teilyngdod Treflun | | Amwynder gweledol pwysig | |
| | | Adeilad neu safle nodedig | |
| Bioamrywiaeth | | Yn darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth | |

**Disgrifiad**

Cliriwyd Lonydd Golchi mewn nifer o fannau ym mhentref Llangynidr i ganiatáu mynediad i afon Cleisfer. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r 18fed ganrif ac roedden nhw yn bennaf ar gyfer dŵr

croyw, ond roedden nhw'n cael eu defnyddio at unrhyw anghenion domestig. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Mae'r Lonydd Golchi'n dystiolaeth o gyfnod o hanes cymdeithasol lle roedd mynediad at ddŵr tap glân yn adnodd premiwm, ac nid oedd bob amser ar gael i bawb. Maent yn arddangos ysbryd cymunedol trwy ddatblygiad mecanweithiau a gynlluniwyd i ganiatáu defnydd ar y cyd o adnoddau lleol. Mae'r elfennau ffisegol hynny sy'n weddill wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau lleol ac yn dystiolaeth o arddulliau adeiladu brodorol.

Mae Lôn Olchi 1 yn goroesi fel llwybr mynediad yn unig, tua 1.75m o led ac wedi'i tharmacio lle mae'n gadael y briffordd gyhoeddus, gan gulhau'n llwybr pridd o oddeutu 1m o led gyda waliau cerrig i'r naill ochr wrth iddi agosáu at yr afon.

| Lôn Olchi 2: Mill Road | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod: 002** | **Cyfesurynnau: 315352,219166** | | |




**Meini Prawf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hanesyddol | X | Diddordeb Hanesyddol | X |
| | | Cysylltiad Hanesyddol | |
| Pensaernïol | X | Hanes/dyluniad pensaernïol lleol/rhanbarthol | |
| | | Oedran/Arddull/Nodweddion unigryw | |
| | | Ychwanegu at y cymeriad lleol | X |
| Goroesiad | X | Cyfanrwydd | |
| | | Elfen bwysig yn natblygiad yr ardal | X |
| Teilyngdod Treflun | | Amwynder gweledol pwysig | |
| | | Adeilad neu safle nodedig | |
| Bioamrywiaeth | | Yn darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth | |

**Disgrifiad**

Cliriwyd Lonydd Golchi mewn nifer o fannau ym mhentref Llangynidr i ganiatáu mynediad i afon Cleisfer. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r 18fed ganrif ac roedden nhw yn bennaf ar gyfer dŵr croyw, ond roedden nhw'n cael eu defnyddio at unrhyw anghenion domestig. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Roedden nhw, ac maen nhw, yn

lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Mae'r Lonydd Golchi'n dystiolaeth o gyfnod o hanes cymdeithasol lle roedd mynediad at ddŵr tap glân yn adnodd premiwm, ac nid oedd bob amser ar gael i bawb. Maent yn arddangos ysbryd cymunedol trwy ddatblygiad mecanweithiau a gynlluniwyd i ganiatáu defnydd ar y cyd o adnoddau lleol. Mae'r elfennau ffisegol hynny sy'n weddill wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau lleol ac yn dystiolaeth o arddulliau adeiladu brodorol.

Mae Lôn Olchi 2 yn agos at bont gerrig ac yn cynnwys pum gris i lawr i'r afon. Mae'n ymddangos bod y tri uchaf o goncrit, gyda'r ddau isaf o garreg. Mae'r lôn olchi hon yn sylweddol gulach na'r lleill, gyda'r grisiau yn tua 40cm o led yn unig; mae'r wal gynnal gyfagos yn ymddangos yn ymyriad modern. Mae mynediad i'r grisiau o'r llwybr sy'n arwain ar draws y bont wedi'i amsugno i berchnogaeth yr eiddo cyfagos. Dyma'r unig achos lle mae ffiniau wedi'u hail-lunio, er bod Lonydd Golchi 1, 4 a 5 i gyd yn dangos tystiolaeth o gael eu defnyddio'n answyddogol fel estyniadau o'r eiddo cyfagos.

| Lôn Olchi 3: Mardy Lane | |
|---|---|
| **Cyfeirnod: 003** | **Cyfesurynnau: 315407,219180** |




**Meini Prawf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hanesyddol | X | Diddordeb Hanesyddol | X |
| | | Cysylltiad Hanesyddol | |
| Pensaernïol | X | Hanes/dyluniad pensaernïol lleol/rhanbarthol | |
| | | Oedran/Arddull/Nodweddion unigryw | |
| | | Ychwanegu at y cymeriad lleol | X |
| Goroesiad | X | Cyfanrwydd | X |
| | | Elfen bwysig yn natblygiad yr ardal | X |
| Teilyngdod Treflun | | Amwynder gweledol pwysig | |
| | | Adeilad neu safle nodedig | |
| Bioamrywiaeth | | Yn darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth | |

**Disgrifiad**

Cliriwyd Lonydd Golchi mewn nifer o fannau ym mhentref Llangynidr i ganiatáu mynediad i afon Cleisfer. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r 18fed ganrif ac roedden nhw yn bennaf ar gyfer dŵr croyw, ond roedden nhw'n cael eu defnyddio at unrhyw anghenion domestig. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Mae'r Lonydd Golchi'n dystiolaeth o gyfnod o

hanes cymdeithasol lle roedd mynediad at ddŵr tap glân yn adnodd premiwm, ac nid oedd bob amser ar gael i bawb. Maent yn arddangos ysbryd cymunedol trwy ddatblygiad mecanweithiau a gynlluniwyd i ganiatáu defnydd ar y cyd o adnoddau lleol. Mae’r elfennau ffisegol hynny sy’n weddill wedi’u hadeiladu o ddeunyddiau lleol ac yn dystiolaeth o arddulliau adeiladu brodorol.

Mae Lôn Olchi 3 yn dechrau fel llwybr glaswelltog, tua metr o led, rhwng adeiladau rhestredig Danygraig (cyfeirnod Cadw: 20362) a Laurel Cottage (cyfeirnod Cadw: 20360). Cyfeirir at y lonydd golchi yn y disgrifiadau rhestru ar gyfer yr eiddo hyn: “Wash lane to the E forming boundary with Laurel Cottage/to the W forming boundary with Danygraig, leading to the Nant Cleisfer with masonry steps down to the river. A number of wash lanes in between the houses backing onto the Nant Cleisfer were created to provide access to water supplies for the villagers.” Mae Lôn Olchi 3 yn cynnwys deg gris carreg i lawr i'r afon, gyda waliau cerrig i'r naill ochr. Mae’r gris isaf yn garreg wastad fawr, drionglog sy'n parhau ar hyd wal gynnal gerrig y lan i'r dwyrain am oddeutu 2m.

| Lôn Olchi 4: Bridgend House | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod: 004** | **Cyfesurynnau: 315498,219237** | | |





| **Meini Prawf** | | | |
|---|---|---|---|
| Hanesyddol | X | Diddordeb Hanesyddol | X |
| | | Cysylltiad Hanesyddol | |
| Pensaernïol | X | Hanes/dyluniad pensaernïol lleol/rhanbarthol | |
| | | Oedran/Arddull/Nodweddion unigryw | |
| | | Ychwanegu at y cymeriad lleol | X |
| Goroesiad | X | Cyfanrwydd | |
| | | Elfen bwysig yn natblygiad yr ardal | X |
| Teilyngdod Treflun | | Amwynder gweledol pwysig | |
| | | Adeilad neu safle nodedig | |
| Bioamrywiaeth | | Yn darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth | |

**Disgrifiad**

Cliriwyd Lonydd Golchi mewn nifer o fannau ym mhentref Llangynidr i ganiatáu mynediad i afon Cleisfer. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r 18fed ganrif ac roedden nhw yn bennaf ar gyfer dŵr croyw, ond roedden nhw'n cael eu defnyddio at unrhyw anghenion domestig. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Mae'r Lonydd Golchi'n dystiolaeth o gyfnod o

Bannau Brycheiniog

hanes cymdeithasol lle roedd mynediad at ddŵr tap glân yn adnodd premiwm, ac nid oedd bob amser ar gael i bawb. Maent yn arddangos ysbryd cymunedol trwy ddatblygiad mecanweithiau a gynlluniwyd i ganiatáu defnydd ar y cyd o adnoddau lleol. Mae’r elfennau ffisegol hynny sy’n weddill wedi’u hadeiladu o ddeunyddiau lleol ac yn dystiolaeth o arddulliau adeiladu brodorol.

Mae Lôn Olchi 4 wrth ymyl pont gerrig, gyda thri gris ar ddeg yn gwyro i lawr i'r afon. Mae gât bren wedi'i gosod lle ceir mynediad i’r lôn olchi o'r llwybr ar draws y bont (er y gellir cael mynediad i’r lôn olchi yn rhydd). Yn anarferol mae'r lôn olchi hon yn lledu allan o oddeutu 1.75m wrth iddi agosáu at yr afon. Mae'r mwyafrif o'r grisiau yn ailosodiadau modern, gyda'r rhai ar y gwaelod o garreg; mae'n bosibl bod y rhain yn rhai gwreiddiol, er bod y garreg wastad fawr ar y gwaelod yn ymddangos i fod wedi'i phlastro â morter. Mae'n bosibl bod y cerrig wedi'u hail-osod, efallai fel rhan o'r gwaith i greu teras bach ger y bont.

Bannau Brycheiniog

| Lôn Olchi 5: James Street | |
|---|---|
| **Cyfeirnod: 005** | **Cyfesurynnau: 315555,219287** |





| **Meini Prawf** | | | |
|---|---|---|---|
| Hanesyddol | X | Diddordeb Hanesyddol | X |
| | | Cysylltiad Hanesyddol | |
| Pensaernïol | X | Hanes/dyluniad pensaernïol lleol/rhanbarthol | |
| | | Oedran/Arddull/Nodweddion unigryw | |
| | | Ychwanegu at y cymeriad lleol | X |
| Goroesiad | X | Cyfanrwydd | |
| | | Elfen bwysig yn natblygiad yr ardal | X |
| Teilyngdod Treflun | | Amwynder gweledol pwysig | |
| | | Adeilad neu safle nodedig | |
| Bioamrywiaeth | | Yn darparu cynefin/amddiffyniad ac yn annog bioamrywiaeth | |

**Disgrifiad**

Cliriwyd Lonydd Golchi mewn nifer o fannau ym mhentref Llangynidr i ganiatáu mynediad i afon Cleisfer. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r 18fed ganrif ac roedden nhw yn bennaf ar gyfer dŵr croyw, ond roedden nhw'n cael eu defnyddio at unrhyw anghenion domestig. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Roedden nhw, ac maen nhw, yn lonydd sydd â hawl mynediad ond nid hawliau tramwy. Mae'r Lonydd Golchi'n dystiolaeth o gyfnod o

hanes cymdeithasol lle roedd mynediad at ddŵr tap glân yn adnodd premiwm, ac nid oedd bob amser ar gael i bawb. Maent yn arddangos ysbryd cymunedol trwy ddatblygiad mecanweithiau a gynlluniwyd i ganiatáu defnydd ar y cyd o adnoddau lleol. Mae'r elfennau ffisegol hynny sy'n weddill wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau lleol ac yn dystiolaeth o arddulliau adeiladu brodorol.

Mae Lôn Olchi 5 yn lletach na'r lonydd golchi eraill ar tua 2m o led, ac mae'n agor fel llwybr glaswelltog gyda wal gerrig i'r chwith, sydd fel petai wedi'i throsi'n rhannol yn adeilad allanol. Wrth i'r lôn agosáu at yr afon, mae'r wal i'r chwith yn troi'n ffens bren a weiren ieir, tra bod y wal i'r dde wedi'i gorchuddio â choncrit. Mae Lôn Olchi 5 yn llwybr mynediad yn unig erbyn hyn ac mae tystiolaeth o erydiad sylweddol i'r lan yn yr ardal hon.